


Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

ADRODDIAD BLYNYDDOL
CYFARWYDDWR
GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL A THAI
2021-2022



CREU CYMUNEDAU GOFALGAR
CREATING CARING COMMUNITIES



Cynnwys

Tudalen

1	Cyflwyniad	2
2	Crynodeb y cyfarwyddwr o'r perfformiad	3
3	Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?	5
4	Hybu a gwella lles y rhai rydym yn eu helpu	8
5	Gwarchod a hybu iechyd a lles pobl	10
6	Gwarchod a diogelu pobl rhag niwed	12
7	Annog pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan	14
8	Cynorthwyo pobl i gynnal perthnasoedd iach	16
9	Cynorthwyo pobl i wella ffordd o fyw a llety	18
10	Sut rydym yn gwneud yr hyn rydym yn ei wneud	20
11	Casgliad	22

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ar gyfer 2021/22.

Roedd fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020/21 yn canolbwyntio'n fawr ar sut yr ymatebodd y Gyfadran i heriau digynsail pandemig Covid-19 a sut y gwnaethom geisio cynnal gwasanaethau i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed.

Er bod rhan gynnar 2021/22 yn ei gwneud yn ofynnol i ni barhau i flaenoriaethu ein hadnoddau i'r ymateb covid, yn rhan olaf y flwyddyn gwelwyd llacio'r sefyllfa covid a'r camau cyntaf yn ôl i ryw fath o normalrwydd.

Nid yw'n syndod bod y pandemig wedi ein gadael gydag ôl-groniad sylweddol o geisiadau am asesiadau/gwasanaethau y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw nawr. Un o'r heriau allweddol sydd wedi dod i'r amlwg, i ni ein hunain a'n partneriaid yn y sector annibynnol, yw'r anhawster recriwtio a chadw staff gofal. Wrth i'r pandemig ddod i ben mae nifer o ofalwyr wedi manteisio ar y cyfle i ymddeol neu i symud ymlaen i bethau newydd, ac mae eu hamnewid mewn niferoedd digonol, wedi bod yn her wirioneddol. Yn ogystal, mae nifer sylweddol o swyddi gwag yn y sectorau manwerthu a lletygarwch yn golygu bod cystadleuaeth gref i gael staff o ansawdd da. Rydym yn gweithio'n galed yn lleol, gydag awdurdodau lleol eraill a gyda Llywodraeth Cymru i geisio unioni'r hyn sy'n broblem ledled y DU.

Er gwaethaf nifer sylweddol o heriau, mae perfformiad y Gyfadran wedi bod yn gryf drwy gydol y flwyddyn ariannol ac rydym wedi gallu dychwelyd i rai o'n mecanweithiau adrodd perfformiad. Mae'r adroddiad hwn

hefyd yn tynnu sylw at sut aethom i'r afael â'n blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2021/22 a'n blaenoriaethau ar gyfer 2022/23.

Datblygiad positif i ni yw cyflwyno ein gwasanaeth Gofal Caerffili, a oedd yn rhan o ymateb y Cyngor i'r pandemig. Mae Gofal Caerffili wedi cymryd egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Lles Gwasanaethau Cymdeithasol (gan gynnwys sgysiau ystyrlon ac asesiadau ar sail cryfder) a'u cymhwyso i unrhyw un sy'n cysylltu â'r Awdurdod am gymorth a chefnogaeth. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cael gwell dealltwriaeth o pam fod angen cefnogaeth ar bobl ac a oes angen i'r gefnogaeth honno ddod gan Wasanaethau Cymdeithasol neu'r Awdurdod ehangach.

Mae gweithio mewn partneriaeth wedi dod yn fwyfwy arwyddocaol o ran darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent wedi derbyn symiau sylweddol o arian grant i ddatblygu modelau gwasanaeth newydd ac integredig ar draws y gwasanaethau i Oedolion a Phlant.

Hoffwn ddiolch i'r holl staff sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ledled y Fwrdeistref Sirol, boed yn gweithio i'r awdurdod lleol, y sector annibynnol neu'r trydydd sector. Hoffwn hefyd gydnabod cyfraniad y gofalwyr di-dâl am eu hymdrechion diflino.

Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd 2022/23 yn dod â'i heriau ei hun, ond credaf yn wirioneddol fod y Gyfadran mewn sefyllfa dda i ymdrin â beth bynnag a ddaw i'n ffordd.

D.M. Street

Dave Street

Cyfarwyddwr Corfforaethol

Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai

Crynodeb y Cyfarwyddwr o'r Perfformiad

O ganlyniad i bandemig Covid-19, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno 'data pwyntiau gwirio' er mwyn monitro effaith y pandemig, yn enwedig mewn perthynas â gofynion llwyth gwaith ac adnoddau staffio, gan gynnwys absenoldebau. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o'r set ddata perfformiad cenedlaethol ac wedi gweithredu Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol a fydd yn cael ei adrodd arno ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23.

Fodd bynnag, cyflwynwyd Asesiad Perfformiad y Gyfadran (APC) ar gyfer y 6 mis cyntaf i Bwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ar yr 8fed Mawrth 2022 ac roedd y negeseuon allweddol fel a ganlyn:

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili wedi ymrwmo i wneud yn siŵr bod pobl yn

gallu lleisio eu barn, boed hyn yn ymwneud â sut y caiff ein gwasanaethau eu datblygu a'u darparu yn y dyfodol, neu a yw'n ymwneud â gwasanaeth y maent yn ei dderbyn yn awr.

Rydym yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd gwahanol gan gynnwys; cynnal arolygon, prosesau monitro contractau, ymweliadau unigol cyfrifol, cwynion a chanmoliaeth, digwyddiadau ymgynghori ac adborth gan Arolygiadau.

Mae pob un o'n gwasanaethau Rheoleiddiedig wedi'u cofrestru dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae hwn wedi bod yn ddarn mawr o waith a gwblhawyd yn unol â'r amserlenni statudol.

Mae gweithgarwch allweddol a gyflawnwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y cyfnod wedi cynnwys:





Gwasanaethau i Oedolion

Mae'r niferoedd sy'n derbyn gwasanaethau yn aros yn weddol gyson, fodd bynnag, oherwydd prinder cenedlaethol gweithwyr gofal cartref, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn roedd 74 o bobl yn aros am ddarpariaeth pecyn gofal. Mae'r ffigur hwn wedi amrywio drwy'r flwyddyn ac wedi bod mor uchel â 123 o bobl, sydd wedi cael effaith andwyol ar ein gallu i ryddhau pobl o'r ysbyty.

Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y galw am gyfeirio at y tîm Therapi Galwedigaethol Cymunedol, sydd wedi rhoi pwysau sylweddol ar staff a'n gallu i ddarparu offer ac addasiadau mewn cartrefi pobl eu hunain.

Bu gostyngiad bychan yn nifer yr asesiadau gafodd eu cwblhau, oherwydd cymhlethdod yr achosion ac absenoldebau staff yn sgil Covid.

Gwasanaethau i Blant

Ar gyfer y Gwasanaethau i Blant, roedd niferoedd yr atgyfeiriadau sy'n symud ymlaen i'w hasesu yn parhau'n gymharol sefydlog, fodd bynnag, mae cymhlethdod y materion a gyflwynwyd wedi bod yn cynyddu. Adroddwyd hefyd bod nifer y plant a gafodd eu cynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'r nifer sy'n dod yn Derbyn Gofal, yn sefydlog ar hyn o bryd.

Nodwyd bod perfformiad cyffredinol yn gadarnhaol heb unrhyw eithriadau i'w hadrodd. Mae adroddiad Asesiad Perfformiad diwedd blwyddyn y Gyfadran ar gyfer 2021-22 ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu lleisio eu barn, boed hyn yn ymwneud â sut y caiff ein gwasanaethau eu datblygu a'u darparu yn y dyfodol, neu a yw'n ymwneud â gwasanaeth y maent yn ei dderbyn yn awr. Rydym yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd gwahanol gan gynnwys; cynnal arolygon, prosesau monitro contractau, ymweliadau unigol cyfrifol, cwynion a chanmoliaeth, digwyddiadau ymgynghori ac adborth gan Arolygiadau.

Y ffordd bwysicaf o sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed a gwrando arno yw trwy bob cyswllt sydd gan ein staff gyda defnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn yn dechrau o'r pwynt cyswllt cyntaf gyda'r Gyfadran. Mae ein holl staff wedi derbyn hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol i roi'r sgiliau iddynt gael sgysiau ystyrlon i nodi 'beth sy'n bwysig' i bobl, gan gynnwys y canlyniadau personol y mae'r unigolyn eisiau eu cyflawni a'r rhwydweithiau cymorth y gallai fod eisoes ar waith, i ddibynnu arnynt i fodloni'r canlyniadau hyn. Mae unrhyw gynlluniau i ddarparu gofal neu gefnogaeth yn cael eu cyd-gynhyrchu er mwyn sicrhau bod lleisiau a dewisiadau pobl yn cael eu cofnodi a'u bod yn derbyn ymateb priodol.

Fel y cyfeirir yn fy nghyflwyniad i'r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi cymhwyso egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant at wasanaethau ehangach y Cyngor trwy weithredu ein Gwasanaethau Gofal Caerffili. Mae hyn yn sicrhau bod lleisiau pobl yn ganolog i holl gysylltiadau'r Cyngor, ac mae gweithgareddau fel asesiadau sy'n seiliedig ar gryfder yn cael eu gwreiddio yng nghynnig ehangach y Cyngor.

Mae pob un o'n gwasanaethau Rheoleiddiedig wedi'u cofrestru dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac fe'u harolygwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Yn unol â'r gofynion, mae ein holl wasanaethau cofrestredig wedi cwblhau Adroddiadau Sicrhau Ansawdd sy'n cael eu cyflwyno i AGC. Mae archwiliadau rheolaidd o gartrefi gofal wedi parhau ac mae'r adroddiadau arolygu i gyd ar gael ar wefan AGC.

Mae cyfarfodydd ymgysylltu wedi parhau i gael eu cynnal gyda'r Arolygydd Awdurdodau Lleol cyswllt AGC a'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol broses sydd yn rhaid ei dilyn pan fydd rhywun yn anhapus â'n gwasanaethau ac yn dymuno gwneud cwyn. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod trin cwynion yn gyflym ac effeithiol gyda'r canlyniad bod modd datrys y mwyafrif o faterion mor gynnar â phosibl.

Yn ystod 2021/22, derbyniodd y Gyfadran 135 o gwynion. Rhoddodd y Tîm Cwynion a Gwybodaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ymdrech sylweddol i geisio datrys materion i foddhad y cwsmer yng Ngham 1 y broses, ac mae'n gadarnhaol iawn adrodd bod y mwyafrif o gwynion yn cael eu datrys ar yr adeg hynny.

Mae'r Tîm Cwynion a Gwybodaeth yn cofnodi a yw cwynion yn cael eu cynnal, eu cadarnhau'n rhannol neu heb eu cadarnhau. Mae hyn yn galluogi'r Gyfadran i nodi unrhyw themâu a thueddiadau o'r canfyddiadau i wella ymarfer yn y dyfodol a nodi unrhyw ddigwyddiadau ynysig o arfer gwael a allai fod angen sylw.



O'r 135 o gwynion a dderbyniwyd yng Ngham 1, nodwyd y canlyniadau canlynol:

- Cafodd 7 eu cau gyda 4 yn cael eu tynnu'n ôl gan yr achwynydd a 3 yn cael eu cyfeirio at brosesau parhaus eraill h.y. achosion cyfreithiol parhaus
- Cafodd 9 cwyn eu cadarnhau
- Cafodd 1 cwyn ei gadarnhau'n rhannol
- Ni chafodd 117 o gwynion eu cadarnhau
- Roedd 1 cwyn yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn

O'r 9 cwyn a gadarnhawyd:

- Roedd 3 yn ymwneud â'r Gwasanaethau i Oedolion
- Roedd 1 yn ymwneud â'r Gwasanaethau i Blant ac
- Roedd 5 yn ymwneud â'r Weithdrefn Gwynion Corfforaethol


Derbyniodd y Gyfadran 9 cais i ddatblygu cwynion i ymchwiliad ffurfiol Cam 2. Yn ogystal, roedd 14 cyswllt gan ein cwsmeriaid i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - yr un nifer ag yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r Gyfadran yn gwerthfawrogi pwysigrwydd dysgu o gwynion a chynrychiolaethau ac mae'n cael ei gydnabod bod angen rhoi pwyslais cyfartal ar ddysgu o ganlyniadau cadarnhaol.

Daw canmoliaeth gan dimau ar ffurf cardiau diolch, llythyrau ac e-byst ac mae'r rhain yn cael eu hanfon at y Tîm Cwynion a Gwybodaeth iddyn nhw eu cofnodi. Yn 2021/22, derbyniwyd 126 o ganmoliaethau, gyda 83% ohonynt yn ymwneud â'r Gwasanaethau i Oedolion a 17% yn ymwneud â'r Gwasanaethau i Blant. Dyw hyn ddim yn anarferol o ystyried natur y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y ddwy ardal.

Yn ogystal, mae ymatebion arolwg blynyddol gan rai meysydd gwasanaeth yn arwain at adborth cadarnhaol y gellir ei ddefnyddio i fesur llwyddiant y Gyfadran yn y meysydd hynny.

Cafodd Adroddiad Blynyddol 2021/22 ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar 14eg Mehefin 2022 a gellir dod o hyd iddo ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.



4

Hybu a gwella lles y rhai rydym yn eu helpu

Fel y nodwyd yn Adran 3 uchod, mae staff o fewn Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCC) Caerffili yn cael eu hyfforddi i gynnal 'sgyrsiau ystyrlon' gyda defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd, a gofawyr am yr hyn sy'n wirioneddol bwysig iddynt.

Mae 'sgyrsiau ystyrlon' yn dechrau gyda staff GCC y tro cyntaf i rywun gysylltu â ni. Mae'r sgyrsiau hyn yn canolbwyntio ar gryfderau pobl, ar weithio gyda phobl i adennill neu gynnal eu hannibyniaeth a defnyddio'u sgiliau a'u rhwydweithiau eu hunain i gyflawni eu canlyniadau dymunol lle bynnag y bo modd.

Mae'n bwysig cydnabod bod mwyafrif y cysylltiadau dros y Gwasanaethau i Blant yn dod o weithwyr proffesiynol, ac o ganlyniad mae'r sgyrsiau 'sy'n bwysig' gyda'r plentyn a/neu eu teulu yn methu digwydd hyd nes bydd asesiad ar gyfer Gofal a Chymorth wedi cychwyn.

Un o'r prif egwyddorion ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili yw hyrwyddo a chynnal annibyniaeth.

O ran y Gwasanaethau i Blant, mae hyn yn golygu cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd a chynnal plant o fewn eu cartrefi a'u cymunedau lle bynnag y bo'n ddiogel i wneud hynny. Yn sail i hyn mae asesiadau amserol o angen ac atebion creadigol yn cael eu ceisio er mwyn helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd.

Er y gallai rhai teuluoedd fod â golwg negyddol ar Wasanaethau Cymdeithasol Plant i ddechrau, rydym yn sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u rhieni a'u gofawyr yn cymryd rhan lawn yn y broses asesu a'u bod yn helpu i lunio a dylanwadu ar eu cynllun ar gyfer gofal a chymorth. Mae gweithio fel hyn yn helpu i wella perthnasoedd gwaith dros amser.

Er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau neu wneud eu barn yn unig yn hysbys, mae gan bob plentyn fynediad at Eiriolwr Annibynnol a all eu cefnogi mewn cyfarfodydd i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Ni oedd yr Awdurdod Lleol cyntaf i ddatblygu gwasanaeth Eiriolaeth Rhieni a ariennir ar y cyd gan Deuluoedd yn Gyntaf. Wedi hynny, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i beilotia cyflwyno'r model ar draws pedwar Awdurdod Lleol arall Gwent.

Mae cefnogi pobl i gadw neu adennill eu hannibyniaeth yn un o brif amcanion pawb sy'n gweithio o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae gennym fynediad llawn at gronfa ddata lles y dinasyddion cenedlaethol o'r enw DEWIS, fel y gall pobl gael mynediad cyflym a hawdd at wybodaeth yn uniongyrchol o wefan yn hytrach na gorfod gwneud galwad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu siarad â gweithiwr proffesiynol, lle mae'n bosibl y byddai'n well ganddynt beidio. Mae gennym swyddog arweiniol penodol i ddatblygu DEWIS ymhellach.

Mae'r Gwasanaethau i Oedolion wedi cyflwyno gwasanaeth asesu ar gyfer gofal cartref er mwyn ceisio hyrwyddo annibyniaeth pobl lle bo hynny'n bosib, drwy ddefnyddio ffordd 'Ail-alluogi'. Mae hyn wedi galluogi pobl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty a chael eu hasesu yn eu cartrefi eu hunain.

Yn ogystal, rydym wedi gweithio gyda'r Bwrdd lechyd i gael mynediad at eu gofal cartref i ryddhau pobl o'r ysbyty, sydd angen pecyn gofal mawr. Felly rydym wedi lleihau eu hyd o aros a'u galluogi i ddychwelyd eu cartref eu hunain sef yr hyn y maent ei eisiau ar gyfer eu lles.

Rydym wedi agor siop goffi sydd wedi ei staffio gan 12 o unigolion gydag anabledd dysgu a oedd yn arfer mynychu gwasanaethau dydd. Mae cynlluniau ar y gweill i gyflogi'r bobl hyn ar delerau ac amodau'r Cyngor.



Sut aethom i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2021/22:

- Fe wnaethom drosglwyddo ein cysylltwyr Cymunedol a'n cydlynnydd Gwirfoddolwyr i dîm Gofalu am Gaerffili i ganolbwyntio ar atal a galluogi pobl i fod yn rhan o'u cymuned.
- Rydym wedi cynnwys ein holl wasanaethau cofrestredig ar system DEWIS fel y gall pobl chwilio am swyddi gwag mewn Cartrefi Gofal a chael mynediad at adroddiadau arolygu.
- Sefydlom grŵp o rieni pobl sydd ag awtistiaeth i helpu i lywio ein hymarfer.
- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i alluogi staff i gael sgysiau gwahanol â phobl er mwyn deall yn well eu canlyniadau a ddymunir.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

- Ymgorffori'r model derbyn o asesu ar gyfer gofal er mwyn hybu annibyniaeth, dewis a rheolaeth pobl.
- I gynyddu'r nifer sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol er mwyn caniatáu dewis unigolyn o sut mae eu gofal a'u cymorth yn cael ei ddarparu, er mwyn diwallu eu hanghenion orau.
- I rannu dysgu i gefnogi cydweithwyr gyda'r broses genedlaethol o gyflwyno Eiriolaeth Rhieni yn y Gwasanaethau i Blant.



Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hybu iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol pobl

Mae Caerffili yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phobl a'n partneriaid i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc, a bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni wrth symud ymlaen.

Prif ffocws gweithgarwch partneriaeth ar gyfer y Gyfadran yw Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent (BPRh). Mae'r Bwrdd hwn, a sefydlwyd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dwyn ynghyd cynrychiolwyr allweddol o'r pum Awdurdod Lleol yng Ngwent, ynghyd â chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, y Trydydd Sector, Darparwyr a Dinasyddion.

Cefnogir y BPRh gan ystod o grwpiau strategol y mae gan bob un ohonynt eu rhaglenni gwaith eu hunain ac maent yn cael eu cefnogi'n bennaf trwy gyllid o grantiau Llywodraeth Cymru.

Mae Caerffili yn bartneriaid gweithredol ym Mhartneriaeth Strategol Plant a Theuluoedd ledled Gwent sy'n blaenoriaethu datblygu dulliau integredig ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc, gan gynnwys cymorth therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal drwy ddatblygiad rhanbarthol gwasanaeth Fy Nhîm Cefnogol (sef My Support Team - MyST) ar draws y pum Awdurdod Lleol. Mae MyST yn Wasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) arbenigol a ddarperir gan yr Awdurdodau Lleol ac mae'r Cyfarwyddwr Rhaglen Rhanbarthol a Chymorth Busnes yn cael eu cynnal gan Gaerffili.

Mae Gwasanaeth Trawma Ymlyniad Gwent gyfan wedi parhau i gynnig cyngor, ymgynghoriadau a hyfforddiant i dimau

gwaith cymdeithasol Caerffili, gyda'r nod o gefnogi plant a phobl ifanc i barhau i fyw gartref neu barhau i fod mewn lleoliadau maeth sefydlog.

Mewn ymateb i alw a chymhlethdod cynyddol lleoliadau gofal plant, gofynnodd y Gwasanaethau i Blant am gymeradwyaeth Gorfforaethol a Gwleidyddol i ehangu darpariaeth gofal preswyl mewnol gan gynnwys dau gartref ychwanegol i blant, llety â chymorth i bobl ifanc sy'n Gadael Gofal a thŷ ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu datblygu ymhellach drwy 2022/23.

Ar draws yr adran Gwasanaethau i Oedolion, rydym yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau er mwyn atal mynediad diangen i'r ysbyty a hwyluso rhyddhau amserol diogel i unigolion y mae'n rhaid eu derbyn. Mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC) wedi gosod staff cymunedol yn Ysbyty Ystrad Fawr i weithio gydag unigolion, eu teuluoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae mentrau'n cynnwys mynediad at Ofal Cartref y Bwrdd Iechyd a datblygu gwelyau 'cam yn nes at adref' mewn cartrefi gofal ar gyfer lleoliadau dros dro er mwyn atal pobl rhag aros yn yr ysbyty unwaith y byddant yn sefydlog yn feddygol.

Rydym wedi cydnabod bod nifer cynyddol o bobl yn profi problemau iechyd meddwl ar lefel is ac roeddent yn cwmpo rhwng cyfrifoldebau gwasanaethau presennol. Mewn ymateb rydym wedi datblygu Tîm i fynd i'r afael â'r bwlch hwn. Mae'r Tîm yn gweithio gyda phobl sydd â gorbryder, hwyliau isel,



hunan-barch isel a materion cysylltiedig. Mae'r Gweithwyr Iechyd Meddwl yn darparu cefnogaeth emosiynol trwy gydol ymyriadau ac mae unigolion yn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth dros y ffôn yn ystod oriau swyddfa. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cefnogi unigolion sydd ag anghenion tai, incwm, budd-daliadau, cyflogaeth a byw'n iach lle bo angen, a'r cyfan gan ddefnyddio amrywiaeth eang o asiantaethau, gwirfoddol a'r trydydd sector.

Yn ystod y flwyddyn, fel rhan o Raglen Lluio Lleoedd y Cyngor, cytunodd y Cabinet i ddyrannu cyllid cyfalaf i ddatblygu dau gyfleuster seibiant newydd - un ar gyfer oedolion ac un i blant. Bydd y datblygiadau hyn yn disodli a chynyddu'r ddarpariaeth bresennol i barhau i gefnogi rhieni a gofalwyr yn eu swyddi gofalu di-dâl.

Sut aethom i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2021/22:

- Gwnaethom ehangu'r ethos Cartref yn Gyntaf i gynnwys Ysbyty'r Tywysog Charles ym Merthyr Tudful a sicrhau cyllid i ehangu'r gwasanaeth i gynnwys Ysbyty Athrofaol y Faenor.
- Fe wnaethom weithredu'r 6 llwybr a gytunwyd yn genedlaethol mewn perthynas â Rhyddhau i Asesu ac Adfer er mwyn gwella canlyniadau i unigolion.
- Aethom ati i gefnogi gofalwyr di-dâl, gan ddefnyddio'r cynllun grantiau bach. Cyhoeddwyd 194 o aelodaeth hamdden, 28 ohonynt i ofalwyr ifanc.
- Cynyddodd nifer y gofalwyr di-dâl ar ein rhestr bostio o 1303 i 1727, trefnwyd nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau unigol y cymerodd 1388 o bobl ran ynddynt.
- Cefnogwyd ehangu'r gwasanaeth MyST i Gasnewydd i gwblhau'r datblygiad rhanbarthol.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

- Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn cynyddu capasiti yn y gymuned.
- Gweithio gyda chydweithwyr rhanbarthol i ddatblygu fframwaith i gefnogi gofalwyr di-dâl.
- I fwrw ymlaen â datblygu'r tai seibiant i oedolion ac i blant.
- Ehangu gofal preswyl plant a llety â chymorth i bobl ifanc ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- I barhau i gefnogi'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol drwy gynnig llety ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches.

6

Cymryd camau i warchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yw'r peth pwysicaf mae'r Awdurdod yn ei wneud. O ganlyniad, mae'r Awdurdod wedi sicrhau ei fod yn flaenoriaeth a chyfrifoldeb corfforaethol. Caiff Bwrdd Diogelu Corfforaethol ledled y Cyngor ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol.

Diogelu yw busnes pawb ac mae'n thema allweddol sy'n rhedeg drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O ganlyniad, rydym yn sicrhau bod ein staff, contractwyr a'n partneriaid yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn. Mae Polisi Diogelu Corfforaethol ar waith ac mae rhaglen o hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth ar waith. Mae gan bob ardal wasanaeth Swyddog Diogelu Dynodedig (SDD) a chynhelir grwpiau datblygu ymarfer cyfnodol i gefnogi'r SDD.

Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn cynhyrchu Adroddiad Blyneddol ar gyfer Aelodau Etholedig a gellir gweld Adroddiad 2021/22 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu ar 14eg Mehefin 2022 ar y wefan.

Arweinir y trefniadau ar gyfer gwella polisiau diogelu, gweithdrefnau ac arferion ledled y rhanbarth gan Fyrddau Diogelu De-ddwyrain Cymru (SEWSCB a GWASB) a Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Mae'r Byrddau hyn yn cael eu cefnogi gan Uned Fusnes sy'n cael ei hariannu gan y partneriaid ac sy'n cael eu cynnal gan Gaerffili. Mae gan y Byrddau strwythur llywodraethu clir ac mae eu gwaith yn cael ei gefnogi gan set o is-grwpiau. Mae Caerffili yn bartner gweithredol ar y Byrddau hyn.



O fewn y Cyngor, mae'r cyfrifoldeb dros ddiogelu plant ac oedolion yn eistedd o fewn y Gwasanaethau i Blant. Er eu bod yn wasanaethau ar wahân, maent i gyd yn cael eu rheoli gan un Rheolwr Gwasanaeth ac mae capasiti a gwytnwch wedi'i wella o ganlyniad. Gwneir penderfyniadau ar bob atgyfeiriad o fewn 24 awr gan sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gweithdrefna. Cafodd Gweithdrefnau Diogelu newydd Cymru Gyfan eu gweithredu yn 2020 ac maen nhw bellach wedi'u gwreiddio'n llawn ar draws y Gyfadran. Mae disgwyl i Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol gael ei weithredu ar ddiwedd 2022.

Sut aethom i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2021/22:

- Fe wnaethom ymgorffori Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan newydd.
- Gwnaethom gyflwyno Offeryn Hunanasesu Diogelu Corfforaethol ar gyfer holl Wasanaethau'r Cyngor.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

- I barhau i wreiddio'r dysgu o Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant.
- Adolygu blaenoriaethau Cynllun 3 blynedd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- I weithredu'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol o fis Tachwedd 2022.
- Bwrw ymlaen â datblygiad System Rheoli Dysgu (SRhD) y Cyngor cyfan i gofnodi presenoldeb a chydymffurfiaeth hyfforddiant diogelu - a gafodd ei ohirio oherwydd pandemig Covid.
- Ymateb i unrhyw ganfyddiadau o'r Archwiliad Mewnol yn dilyn eu hadolygiad o'r prosesau Hunanasesu Diogelu Corfforaethol.



Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Mae cefnogi plant sy'n Derbyn Gofal, a phobl ifanc sy'n Gadael Gofal, i gyrraedd eu llawn botensial a sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn flaenoriaeth allweddol i'r Gwasanaethau i Blant a'r Grŵp Rhianta Corfforaethol.

Mae Caerffili wedi profi hanes o gefnogi pobl ifanc i addysg bellach ac addysg uwch ac mae nifer o'r rhai sy'n Gadael Gofal wedi ennill Graddau a chymwysterau tebyg. Roedd 50% o'r rhai sy'n gadael gofal yn parhau i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal.

Rydym yn cydnabod ei bod hi'n bwysig i bobl fod yn fwy hunan-ddibynnol a chynnal eu hannibyniaeth gan eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas a'u cymuned leol. Rydym wedi gwreiddio'r system wybodaeth DEWIS er mwyn i bobl gael gafael ar wybodaeth ar eu cyfer eu hunain 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Mae galluogi pob oedolyn i gyflawni eu canlyniadau wedi bod yn nodwedd allweddol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau dydd amgen mewn ymateb i'r pandemig Covid. Bydd dysgu o ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol sy'n diwallu anghenion unigol yn elfen allweddol o'r adolygiad annibynnol a gomisiynwyd i ailgynllunio a thrawsnewid gwasanaethau dydd wrth symud ymlaen.

Mae agor siop goffi a oedd wedi ei staffio gan unigolion a oedd yn arfer mynychu gwasanaethau dydd wedi cael derbyniad da iawn ac mae'n cael ei defnyddio'n rheolaidd gan drigolion lleol. Dyma enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy ddarparu gwasanaethau'n wahanol.



Sut aethom i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2020/21:

- Enillodd 10 unigolyn cwrs achrededig mewn Sgiliau Cwsmeriaid.
- Mae pob unigolyn sy'n gweithio yn y siop goffi wedi cael mynediad at hyfforddiant Hylendid Bwyd Lefel II.
- Fe wnaethom lansio'r cerdyn adnabod i ofalwyr ifanc, mae 38 wedi'u cyhoeddi'n barod.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

- Comisiynu sefydliad annibynnol i gynhyrchu model o wasanaethau dydd i'r dyfodol.



Cynorthwyo pobl i ddatblygu a chynnal yn ddiogel perthnasau cartref, teulu a phersonol iach

Rydym am gefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion i fod mor weithgar yn gymdeithasol â phosib, i deimlo y gallant wneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain a chadw eu hunain yn ddiogel.

Rydym wedi gwreiddio'r "sgyrsiau sy'n bwysig" ar draws y Gyfadran a'r staff hyfforddedig er mwyn gwella'u sgiliau i ganolbwyntio ar ganlyniadau, cryfderau ac asedau pobl, eu teuluoedd a'u rhwydweithiau.

Rydym yn cydnabod bod cael perthnasoedd boddhaus rhwng pobl a'r rhai y maent yn agos atynt yn bwysig iawn i'w llesiant.

Ar gyfer plant sy'n derbyn Gofal, mae cynnal cyswllt â'u teuluoedd a chymunedau eu cartrefi yn bwysig iawn, ac mae'r Gwasanaethau i Blant yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod trefniadau cyswllt yn diwallu anghenion pawb sy'n cymryd rhan ac yn ddigwyddiadau cadarnhaol.

O fewn y Gwasanaethau i Oedolion, gwnaethom barhau i recriwtio gofalcwyr i'n Cynllun Rhannu Bywydau er mwyn ein galluogi i gynnig mwy o ddewis a chynyddu nifer y lleoliadau y gallwn eu cynnig mewn cartrefi teuluol i bobl o bob grŵp cleient. Fe wnaethom hefyd sicrhau bod cyllid ar gael i ganiatáu addasiadau i gartrefi pobl, fel rampiau a chawodydd i ganiatáu i bobl barhau i fod yn annibynnol.

Rydym wedi parhau i hwyluso Grwpiau Gofalcwyr ledled y Fwrdeistref Sirol i alluogi gofalcwyr i gyfarfod yn gymdeithasol dros baned. Mae ein Tîm Gofalcwyr yn mynychu llawer o ddigwyddiadau i hyrwyddo eu gwasanaeth ac mae eu hymdrechion wedi cael eu cydnabod.

Roeddem yn cydnabod bod gennym fwy o waith i'w wneud ar gefnogi perthnasoedd a daeth hyn yn flaenoriaeth i ni wrth symud ymlaen o ran ehangu clwb Fy Ffrindiau.

O fewn y Gwasanaethau i Blant, ble bynnag mae'n bosib, a phryd bynnag y bo'n ddiogel i wneud hynny, rydym yn sicrhau bod plant yn cael eu lleoli mor agos at eu cymunedau cartref â phosib er mwyn cefnogi eu cysylltiadau gyda'u teulu a'u cartref.

Mae gofynion cynyddol yn cael eu rhoi arnom i recriwtio mwy o ofalcwyr maeth er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Rydym yn parhau i gynnal ymgyrch recriwtio radio sydd wedi ein helpu i gynyddu'r ymholiadau rydym yn eu derbyn, ond rydym yn parhau i weld y gyfradd uchaf o ymholiadau yn dod o argymhellion 'ar lafar' gan ofalcwyr maeth presennol. Rydym yn llwyr gymryd rhan yn natblygiadau Maethu Cymru ar gyfer gwasanaethau recriwtio, cadw a chefnogi gofalcwyr maeth.

Mae recriwtio'r holl staff, ond yn enwedig Gweithwyr Cymdeithasol Cymwysedig, yn her sylweddol a chynyddol ac mae Caerffili'n cefnogi'r dulliau cenedlaethol sy'n cael eu cynnal gan Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Cymru.



Sut aethom i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2020/21:

- Fe wnaethom ddatblygu cangen prosiect iechyd meddwl Cynllun Rhannu Bywydau De Ddwyrain Cymru ac ehangu'r ardal beilot o Gasnewydd i Gaerffili. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn bartneriaid llawn yn y cynllun.
- Fe wnaethom hyrwyddo aelodaeth o Fy Ffrindiau ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu i ddatblygu perthnasoedd a chyfeillgarwch personol.
- Fe wnaethom ddarparu cyfleoedd seibiant drwy'r cynlluniau Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles i dros 100 o ofalwyr.
- Parhawyd i secondio staff i ymgymryd â'r Radd Gwaith Cymdeithasol.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

- Ehangu ymhellach Cynllun Rhannu Bywydau De Ddwyrain Cymru i ddarparu gwasanaeth i oedolion hŷn sydd â phroblemau iechyd meddwl.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu mecanweithiau i alluogi unigolion i sefydlu a chynnal cyfeillgarwch.
- Parhau â'r cynllun secondio er mwyn i staff ymgymryd â'r Radd Gwaith Cymdeithasol.



Mae gweithio gyda phobl a'u cynorthwyo i sicrhau mwy o les economaidd yn cael bywyd cymdeithasol ac yn byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion

Mae'r Gwasanaethau i Blant yn mynd ati i gefnogi Plant Sy'n Derbyn Gofal Plant i gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant a darparu cefnogaeth unigol lle bynnag y bo angen. Anogir plant a phobl ifanc i wneud y defnydd gorau o'u hamser hamdden a chânt eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol lle bo hynny'n bosibl.

Mae gan y Gwasanaethau i Blant brotocol gweithredol gyda Thai, sydd wedi hen ennill ei blwyf, i sicrhau y gallwn ddarparu cefnogaeth briodol i bobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd. Mae gennym ystod o lety â chymorth ar gael gan gynnwys darpariaeth byw a rennir, llety â chymorth a thenantiaethau â chymorth. Fel y nodwyd yn Adran 5, ein bwriad yw ehangu ein darpariaeth fewnol o gartrefi plant ac opsiynau llety eraill i ddiwallu anghenion ein plant a'n pobl ifanc.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu cymunedau dementia-gyfeillgar fel bod modd cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau arferol byw bob dydd, fel siopa, bancio a bwyta allan. Fe welwch yr arwyddion dementia-gyfeillgar mewn sefydliadau lleol a llawer o bobl yn gwisgo'r

bathodyn blodau glas sy'n dangos eu bod wedi cael eu hyfforddi fel cyfaill dementia.

O fewn cartrefi gofal y Gwasanaethau i Oedolion, gallwch weld llawer o wahanol arddangosiadau a themâu sy'n adlewyrchu bywydau cynharach pobl. Mae'r rhain yn newid yn rheolaidd ac maen nhw'n gallu adlewyrchu'r digwyddiadau cyfredol. Mae'r cartrefi bellach wedi'u rhannu'n unedau tai bach yr un gyda'i dîm staff ei hun, er mwyn iddynt allu dod i wir adnabod y preswylwyr. Mae'r amgylchedd ffisegol o fewn rhai o'r cartrefi hefyd wedi newid wrth gyflwyno lliwiau cysefin gan adlewyrchu dewis pobl o ddrws eu hystafell wely, ac ardaloedd cymunedol yn fwy disglair a mwy diffiniedig.

Gyda'n partneriaid fe wnaethom ehangu ein Cynllun Rhannu Bywydau i edrych ar fenter iechyd sy'n darparu lleoliadau gyda theuluoedd er mwyn atal pobl rhag mynd i'r ysbyty a/neu eu hwyluso i gael eu rhyddhau i gartref teuluol. Mae hyn yn galluogi pobl i gael amser i wella, derbyn mwy o ymyriadau therapi a chael asesiad o'u hanghenion mewn amgylchoedd mwy priodol. Rydym wedi ymrwymo i'r model amgen hwn o lety.



Sut wnaethom fynd i'r afael â'n blaenoriaethau ar gyfer 2021/2022:

- Gwnaethom gynllunio datblygiad fflatiau Mill Road ar gyfer byw'n annibynnol i oedolion sydd ag anabledd. Ond bu'n rhaid gohirio'r gwaith adeiladu oherwydd y pandemig a phroblemau draenio ar y safle.
- Agorwyd siop goffi, wedi'i staffio gan unigolion a oedd yn arfer mynychu gwasanaethau dydd, er mwyn i ni allu symud tuag at gyflogi pobl sydd ag anabledau dysgu.
- Fe wnaethom gyfrannu at ddatblygu cynlluniau rhanbarthol ar gyfer darpariaeth breswyl a rennir ar gyfer pobl ifanc mewn argyfwng.

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

- I gyflogi pobl sydd ag anabledd dysgu ar delerau ac amodau'r Cyngor.
- I ddechrau'r gwaith adeiladu ar fflatiau Mill Road - rydym yn rhagweld y bydd contractwyr ar y safle yn Ionawr 2023.
- Ehangu gofal preswyl plant a llety â chymorth i bobl ifanc ledled y Fwrdeistref Sirol (hefyd yn Adran 5).

Ein gweithlu a sut rydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol

Ein staff yw ein hased mwyaf; mae gweithlu medrus a brwdfrydig yn hanfodol i ddiogelu a chefnogi pobl sy'n agored i niwed, hyrwyddo annibyniaeth a gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau. Mae sicrhau bod ymarferwyr a rheolwyr rheng flaen yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda yn hanfodol i lwyddiant ein gwasanaeth. Mae ein gweithlu wedi bod yn gymharol sefydlog gyda lefelau cadw staff da. Fodd bynnag, fel y cyfeiriwyd eisoes, rydym yn gweld heriau cynyddol o ran recriwtio i swyddi penodol ar draws y Gwasanaethau i Oedolion a Phlant a phwysau cynyddol ynghylch cadw oherwydd cystadleuaeth sylweddol i staff allweddol gan Awdurdodau Lleol eraill, a chyfleoedd ehangach i staff o fewn y sectorau lletygarwch a manwerthu. Yn gynyddol, mae Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn ei chael hi'n anodd cystadlu â'r telerau ac amodau a gynigir.

Mae gennym Dîm Datblygu'r Gweithlu ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ac maent yn gyfrifol am gyflwyno strategaeth hyfforddi a datblygu sy'n cefnogi cyfleoedd datblygu i staff ar bob lefel yng Ngwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Awdurdod yn dal cyfrifoldeb datblygu'r gweithlu am y sector gofal cyfan. Mae'r Sector Gofal yn cyflogi dros 3,000 o staff, gydag oddeutu 50% yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol a 50% yn ôl y sector annibynnol a'r trydydd sector. Mae galw sylweddol a heriau cyflenwi i staff o ran darparu Gofal Cartref ac mae hyn yn argyfwng ledled y DU.

Rydym yn parhau i secondio staff i wneud y Radd Gwaith Cymdeithasol.

Ein hadnoddau ariannol a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

Er gwaethaf yr heriau a'r uchelgeisiau amrywiol sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn mae'r Gyfadran wedi gweithredu o fewn ei chyllideb a ddyrannwyd unwaith eto. Mae rheoli cyllideb wedi'i ymgorffori fel swyddogaeth graidd o Dimau Rheoli Adrannol (TRhA) a'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Ariannol yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli. Trafodir adroddiadau'r gyllideb yn rheolaidd o fewn y TRhA a'r UDRh, a'r timau rheoli hyn yw'r chwaraewyr allweddol wrth ddatblygu strategaeth ariannol y Gyfadran.

Mae'r twf mwyaf sylweddol mewn galw yn ystod 2021/2022 wedi parhau i fod yn y meysydd canlynol:

- **Gofal preswyl sector annibynnol i blant.**
- **Gofal tymor hir i bobl hŷn.**
- **Gofal yn y cartref er mwyn cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain.**
- **Byw â chymorth ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu.**

Mae Brexit, pandemig Covid a'r argyfwng yn Wcrâin i gyd wedi cyfrannu at y pwysau ariannol sy'n cael ei wynebu gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol, ac er bod y sefyllfa ariannol ar gyfer 2022/23 yn edrych i fod yn sefydlog, mae pryderon sylweddol ar gyfer 2023 a thu hwnt.

Mae dibyniaeth barhaus ar ffrydiau cyllid grant gan Lywodraeth Cymru, sydd â therfyn amser, a delir fel arfer drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn tanseilio cynaliadwyedd tymor hwy. Er bod trosglwyddo'r Cyllid Gofal Integredig (CGI) i'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol wedi darparu cyfnod byr o ran dim newidiadau i'r trefniadau cyllido presennol,

bwriad Llywodraeth Cymru yw i gyllid y Gronfa leihau'n raddol gyda'r disgwyl y bydd cyllid y Cyngor yn bodloni'r diffygion cynyddol mewn cyllid. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei herio ledled Cymru.

Ein gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd Gwleidyddol a Chorfforaethol

Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi pwyslais allweddol ar weithio mewn partneriaeth, ac i'r perwyl hwn mae'r Gyfadran yn bartner allweddol i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent Fwyaf gyda'r pedwar awdurdod lleol arall yng Ngwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan waith y BPRh ddylanwad mawr dros waith y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghaerffili ac yn arbennig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ers ei sefydlu mae'r BPRh wedi cynhyrchu:

- **Cynllun Ardal.**
- **Datganiad Sefyllfa'r Farchnad, sy'n amlinellu darpariaeth y gwasanaethau presennol a pha wasanaethau y gallai fod eu hangen yn y dyfodol.**
- **Adroddiad Blynnyddol sy'n tynnu ynghyd holl waith y BPRh.**

Ceir rhagor o wybodaeth am waith y BPRh a chopïau o'r adroddiadau uchod ar ei wefan yn www.gwentrpb.wales/home

Fodd bynnag, nid yw ein gwaith partneriaeth wedi'i gyfyngu i'r BPRh. Mae gennym ystod sylweddol o wasanaethau wedi'u darparu gydag awdurdodau lleol eraill a phartneriaid, gan gynnwys:

- **Tîm Datblygu'r Gweithlu ar y cyd â Blaenau Gwent.**
- **Gwasanaeth Eiddilwch Gwent a ddatblygwyd ar y cyd â'r pedwar Awdurdod Lleol arall a'r Bwrdd Iechyd.**
- **Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar y cyd sy'n cwmpasu'r holl bartneriaid ar draws Gwent.**
- **Mae cynllun Rhannu Bywydau yn cael ei gynnal ar ran chwe Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.**
- **Gwasanaeth Mabwysiadu rhanbarthol ar y cyd, a'r**
- **Rhaglen MyST Rhanbarthol.**

Mae'r gefnogaeth wleidyddol i wasanaethau cymdeithasol yng Nghaerffili yn parhau'n gryf. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yn aelod o Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor sy'n cyfarfod yn wythnosol i ystyried penderfyniadau allweddol ar flaenoriaethau strategol a gweithredol, cyn i'r materion/ penderfyniadau hyn fynd ymlaen i'r Pwyllgor Craffu/Cyngor.

Mae yna Aelod Gweithredol dros Wasanaethau Cymdeithasol sy'n aelod o Gabinet y Cyngor, ac sydd hefyd yn mynychu'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol gydag uwch-reolwyr.

Mae'r Pwyllgor Craffu, sy'n cynnwys un ar bymtheg o aelodau etholedig, yn cwrdd bob chwe wythnos i oruchwylio perfformiad y Gyfadran ac i ystyried unrhyw ddatblygiadau polisi/gwasanaeth cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet.

Roedd 2021/22 yn flwyddyn hynod heriol i bawb a oedd yn gysylltiedig â Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghaerffili. Roedd y cyfyngiadau a'r mesurau diogelwch ar ddechrau'r flwyddyn yn golygu bod yr ymateb i'r pandemig ar y blaen ac wrth galon popeth a wnaethom. Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen a'r wlad yn dechrau symud allan o gyfyngiadau Covid mae'r ffocws wedi bod ar sefydlogi ein gwasanaethau i ddarparu a delio â'r ôl-groniadau anochel a ddigwyddodd yn ystod anterth y pandemig.

Bydd 2022/23 yn dod â'i heriau ei hun wrth i ni symud yn ôl i normalrwydd, ac mae rhywfaint o aflonyddwch i'n ffyrdd arferol o weithredu'n

anochel. Rydym eisoes yn profi problemau sylweddol yn ymwneud â'r gweithlu, ac mae'r rhain, ynghyd â'r heriau economaidd sy'n debygol o gael eu hwynebu ledled y DU, yn anochel. O ganlyniad bydd angen i ni weithio'n agos gyda'n partneriaid allweddol yn fewnol ac yn allanol er mwyn gallu cwrdd â'r gofynion sy'n debygol o gael eu gwneud arnom.

Rwy'n hyderus, drwy ddangos yr un ymrwymiad a gwydnwch a ddaeth â ni drwy'r pandemig, bydd Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili mewn sefyllfa dda i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn y Fwrdeistref Sirol.





Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.